CYNGOR SIR POWYS

DOGFEN YMGYNGHORI

Sefydlu Ysgol Pob Oed newydd i ddisgyblion 4-18 oed yn Llanfyllin

Dyddiadau ymgynghori: 27 Tachwedd 2018 – 31 Ionawr 2019

Ymgynghori ar sefydlu ysgol pob oed newydd i ddisgyblion 4-18 oed yn Llanfyllin

CYNNWYS

		Tudalen
Trosolwg ar yr ymgynghoriad		**3**
Rhan A – Yr Achos dros Newid		**5**
1.	Cefndir	5
2.	Y cyd-destun strategol	7
3.	Pam fod angen newid yn Llanfyllin	8
4.	Opsiynau a ystyriwyd	12
5.	Yr opsiwn a ffafrir a'r rhesymau	15
Rhan B – Y Cynnig		**17**
6.	Trosolwg	17
7.	Beth yw ysgol pob oed?	18
8.	Rhesymau dros y Cynnig	19
9.	Manteision ac anfanteision	20
10.	Risgiau	20
11.	Amserlen weithredu bosib	22
Rhan C – Effaith Debygol y Cynnig		**23**
12.	Effaith ar ddisgyblion	23
13.	Effaith ar ansawdd a safonau mewn addysg	24
14.	Effaith ariannol	28
15.	Effaith ar staff	29
16.	Tir ac adeiladau	29
17.	Teithio a chludiant	30
18.	Derbyn disgyblion i'r ysgol	31
19.	Effaith ar drefniadau llywodraethu	31
20.	Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)	32
21.	Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, y gymuned a'r iaith Gymraeg	33
Rhan D – Manylion Ymgynghori		**34**
Atodiad A	**Data Allweddol**	**37**
Atodiad B	**Ffurflen Ymateb**	**42**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar wefan y Cyngor drwy'r ddolen ganlynol: https://cwsmer.powys.gov.uk/article/5275/Ysgol-GG-Llanfyllin-ac-Ysgol-Uwchradd-Llanfyllin

Os oes angen copi o'r ddogfen mewn fformat arall arnoch, cysylltwch â'r Tîm Trawsnewid Ysgolion os gwelwch yn dda drwy ffonio 01597 826265 neu e-bostio school.modernisation@powys.gov.uk.

Ymgynghori ar sefydlu ysgol pob oed newydd i ddisgyblion 4-18 oed yn Llanfyllin

Trosolwg

1. Y Cynnig

Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar gynigion i sefydlu ysgol pob oed newydd i ddisgyblion 4-18 oed yn Llanfyllin. Dyma'r cynigion:

- Cau Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin
- Sefydlu ysgol pob oed ddwyieithog newydd i ddisgyblion 4-18 oed ar safleoedd presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin

Y dyddiad targed presennol yw cau'r ddwy ysgol ar 31 Awst 2020 gyda'r ysgol newydd i agor ar 1 Medi 2020.

2. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi'r holiadur ar-lein sydd ar ein gwefan:

https://cwsmer.powys.gov.uk/article/5275/Ysgol-GG-Llanfyllin-ac-Ysgol-Uwchradd-Llanfyllin.

Mae copi papur o'r holiadur hefyd ar gael yng nghefn y ddogfen hon.

Neu gallwch ymateb yn ysgrifenedig drwy'r manylion cyswllt isod.

Rhaid i ni dderbyn pob ymateb erbyn **31 Ionawr 2019.**

Bydd dau ddigwyddiad ymgynghori 'galw heibio' hefyd yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd y rhain yn cael eu cynnal ar y dyddiadau canlynol:

Ysgol G.G. Llanfyllin, Dydd Iau 10 Ionawr 2019, 4 – 8pm
Ysgol Uwchradd Llanfyllin, Dydd Mercher 16 Ionawr 2019, 4 – 8pm

3. Manylion cyswllt

Dylid anfon pob ymateb i'r cyfeiriad canlynol:

Tîm Trawsnewid Ysgolion
Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

E-bost: school.consultation@powys.gov.uk

Ffôn: 01597 826265

4. Beth fydd yn digwydd nesaf

Unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben, bydd adroddiad ymgynghori'n cael ei gynhyrchu'n cynnwys yr adborth a dderbyniwyd. Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn ystyried a ydynt am symud ymlaen neu beidio gydag unrhyw un o'r opsiynau yn y ddogfen ymgynghori. Disgwylir i hyn ddigwydd yn y gwanwyn 2019.

Pe bai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen â'r cynigion, byddai hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi a bydd cyfnod o 28 diwrnod i bobl wrthwynebu. Byddai angen i'r Cabinet wedyn ystyried adroddiad arall yn crynhoi unrhyw wrthwynebiadau a phenderfynu symud ymlaen i weithredu'r cynnig neu beidio.

Rydym yn rhagweld y bydd penderfyniad terfynol wedi'i wneud erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2018/19 fan bellaf.

RHAN A YR ACHOS DROS NEWID

Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar y cynigion canlynol:

- **Cau Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin**

- **Sefydlu ysgol pob oed ddwyieithog newydd i ddisgyblion 4-18 oed ar safleoedd presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin**

Y dyddiad targed presennol yw cau'r ddwy ysgol ar 31 Awst 2020 gyda'r ysgol newydd i agor ar 1 Medi 2020.

1. CEFNDIR

Dwy ysgol dwyieithog (dwy ffrwd) yn nhref Llanfyllin yng ngogledd Powys yw Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Mae'r Ysgol Gynradd yn gwasanaethu tref Llanfyllin yn bennaf a'r Ysgol Uwchradd yn gwasanaethu dalgylch gwledig ehangach. Lleolir y ddwy ysgol ar yr un safle.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi gwybodaeth gyffredinol am y ddwy ysgol:

Enw a lleoliad yr ysgol	Categori'r Ysgol	Categori laith	Rhif Derbyn
Ysgol G.G. Llanfyllin, Llanfyllin, Powys, SY22 5BJ	Ysgol Gynradd Gymunedol	Dwy Ffrwd (DS)	27
Ysgol Uwchradd Llanfyllin, Llanfyllin, Powys, SY22 5BJ	Ysgol Uwchradd Gymunedol	Dwyieithog Dwy Ffrwd – Categori 2C	146

Dyma niferoedd presennol y disgyblion[1] yn y ddwy ysgol:

	Derbyn	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
Ysgol Gynradd Llanfyllin	18	19	19	28	16	21	26	147

[1] Teacher Centre, 4 Hydref 2018

	7	8	9	10	11	12	13	Cyfanswm
Ysgol Uwchradd Llanfyllin	101	96	118	137	142	56	57	707

Er bod nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Llanfyllin yn gymharol sefydlog, mae lleihad wedi bod yn y nifer yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin yn y blynyddoedd diwethaf a'r disgwyl yw y bydd hyn yn parhau dros y blynyddoedd nesaf.

Ym mis Mawrth 2018 cytunodd Gabinet y Cyngor ar Bolisi Trefniadaeth Ysgolion newydd sy'n disgrifio dyhead y Cyngor am ddatblygu'r seilwaith addysgol ym Mhowys. Mae'r polisi'n disgrifio nod y Cyngor i ysgolion uwchradd ddod yn 'ysgolion pob oed' neu'n rhan o 'drefniadau aml-safle'.

Mae'r Cabinet hefyd wedi cymeradwyo Cynllun Darparu ar gyfer 2018-2021 sy'n amlinellu tair rhaglen waith i ddatblygu Seilwaith Ysgolion Powys dros y cyfnod hwn. Un o'r rhaglenni hyn yw 'Darpariaeth Uwchradd ac Ôl-16 Oed'.

Ar ôl i'r Cabinet gymeradwyo'r Polisi a'r Cynllun Darparu newydd, gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol i fynychu cyfarfod ar y cyd rhwng cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin i drafod y polisi newydd, a'r model ysgol pob oed yn benodol. Mae'r ddau gorff llywodraethu ers hynny wedi hwyluso gweithdy trafod ar gyfer holl staff y ddwy ysgol ar sail yr egwyddor o symud tuag at sefydlu ysgol pob oed yn Llanfyllin, gyda chyfathrebiad wedi'i anfon at rieni yn eu hysbysu o'r cynlluniau i symud tuag at sefydlu ysgol pob oed yn y dref.

Yn Awst 2018 derbyniodd y Cyngor lythyr gan y ddau gorff llywodraethu'n gofyn bod y Cyngor yn dechrau ar y broses statudol o sefydlu ysgol pob oed yn y dref.

Yn dilyn y cyfarfod cychwynnol â'r ddau gorff llywodraethu, mae'r Cyngor wedi cyflawni adolygiad o'r ddwy ysgol gan gynnwys y camau canlynol:

- Cynnal trafodaethau â'r ddau gorff llywodraethu
- Ymarfer gwerthuso opsiynau
- Yr argymhelliad wedi ei ystyried a'i gytuno gan y Bwrdd Dysgu a Sgiliau
- Yr argymhelliad wedi ei ystyried a'i gytuno gan y Cabinet

Dyma oedd yr argymhelliad a gytunwyd gan y Cabinet ar 18 Medi 2018:

'Dechrau ymgynghori'n unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion ar uno Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin, drwy gau Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin ac agor ysgol pob oed newydd ar safleoedd y ddwy ysgol bresennol.

Y dyddiad targed yw cau'r ddwy ysgol ar 31 Awst 2020 ac agor yr ysgol pob oed newydd ar 1 Medi 2020.'

2. Y CYD-DESTUN STRATEGOL

Ym mis Mawrth 2018, penderfynodd y Cabinet gymeradwyo Polisi Trefniadaeth Ysgolion newydd yn disgrifio dyheadau'r Cyngor ar gyfer seilwaith ysgolion Powys. Mae'r polisi'n disgrifio:

'Mai'r nod yw bod gan y Cyngor fodel addysgol sy'n cyflawni'r canlynol:

- Yn rhoi cyfle i bob dysgwr gyflawni eu potensial
- Arweinyddiaeth a rheolaeth wydn o ansawdd uchel
- Amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel gyda'r nod hirdymor y bydd pob ysgol yn cael ei hasesu i fod yng nghyflwr A neu B
- Mwy o ffocws ar gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth fel bod ysgolion yn gallu darparu'r cyfleoedd gorau posib i'w dysgwyr
- Ysgolion sy'n rhedeg yn effeithiol ac effeithlon gyda'r arian sydd ar gael
- Cynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg a rhoi mynediad at ddarpariaeth lle bydd disgyblion yn gallu dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus
- Datblygu ein hysgolion yn sefydliadau sy'n ganolog i weithgareddau'r gymuned
- Seilwaith TGCh o ansawdd uchel fel bod pob ysgol yn gallu cynnig cyfleoedd gwell ac ehangach i ddysgwyr
- Mynediad at addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel
- Cymorth i ddysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol sy'n cyd-fynd â gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) newydd.
- Mynediad at addysg ôl-16 oed o ansawdd uchel mewn ysgolion, sy'n apelio at ddysgwyr, yn ariannol gynaliadwy ac yn lleihau faint o deithio sy'n rhaid i ddysgwyr ei wneud'

Mae'r polisi hefyd yn nodi y cynhyrchir Cynllun Darparu'n disgrifio blaenoriaethau'r Cyngor:

'Er mwyn symud tuag at rwydwaith ysgolion mwy effeithlon, bydd Cynllun Darparu newydd yn cael ei weithredu'n rhoi mwy o ffocws ar weithio mewn partneriaeth gyda'r ysgolion a'u cymunedau, ac ar fodelau gwahanol o ddarparu addysg, er enghraifft modelau cydweithredu, ffedereiddio, ysgolion aml-safle a phob oed.

Bydd Cynllun Darparu'r Cyngor yn canolbwyntio ar ddarparu'r blaenoriaethau canlynol:

- Ysgolion uwchradd i ddod yn 'ysgolion pob oed' neu'n rhan o drefniadau aml-safle
- Ysgolion cynradd bach[2] i fod yn rhan o drefniadau ffedereiddio / uno / cydweithredu ffurfiol
- Gwneud i ffwrdd â'r rhaniad rhwng ysgolion babanod / iau drwy greu ysgolion cynradd 'pob oed'

[2] Mae Llywodraeth Cymru'n diffinio 'ysgol fach' fel ysgol gyda llai na 91 o ddisgyblion ar y gofrestr yng Nghorchymyn Addysg (Ysgolion Bach) (Cymru) 2014: http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2014/1133/made

- Sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd
- Gwelliannau i ystad ysgolion Powys, naill ai fel rhan o Raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru neu fel rhan o Raglen Rheoli Asedau'r Cyngor
- Gweithredu model newydd o ddarparu addysg ôl-16 oed
- Trawsnewid y cymorth a roddir i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol

Yn ogystal â'r blaenoriaethau uchod, bydd y Cyngor yn annog pob ysgol i:

- Adnabod meysydd lle gellir rhannu staff a / neu wasanaethau ar draws mwy nag un ysgol er mwyn bod yn fwy effeithlon
- Datblygu'r defnydd o gysylltiadau TGCh rhwng safleoedd ysgol i ddarparu cyfleoedd dysgu o bell

Mae'r cynigion presennol ar gyfer Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin yn unol â'r blaenoriaethau hyn.

3. PAM FOD ANGEN NEWID YN LLANFYLLIN

Mae'r heriau presennol sy'n wynebu'r ddwy ysgol yn Llanfyllin fel a ganlyn:

3.1 Nifer y disgyblion yn gostwng, yn enwedig yn y sector uwchradd

Dyma nifer y disgyblion yn y ddwy ysgol dros y blynyddoedd diwethaf[3]:

	Ion 2013	**Ion 2014**	**Ion 2015**	**Ion 2016**	**Ion 2017**	**Ion 2018**
Ysgol Gynradd Llanfyllin (Derbyn-Bl6)	176	164	166	156	157	153
Ysgol Uwchradd Llanfyllin (Bl7-Bl13)	871	831	872	832	808	748
CYFANSWM	**1047**	**995**	**1038**	**988**	**965**	**901**

Dengys y ffigurau hyn fod cyfanswm nifer y disgyblion ar draws y ddwy ysgol i lawr o 146 ers Ionawr 2013. Er bod lleihad bach wedi bod yn nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Llanfyllin, mae'r lleihad yn nifer y disgyblion yn yr Ysgol Uwchradd yn llawer mwy.

Y rhagamcan yw y bydd nifer y disgyblion yn parhau i leihau dros y blynyddoedd nesaf, fel y gwelwn o'r tabl isod:

[3] PLASC

	Ionawr 2019	Ionawr 2020	Ionawr 2021	Ionawr 2022	Ionawr 2023
Ysgol Gynradd Llanfyllin	145	139	133	134	122
Ysgol Uwchradd Llanfyllin	699	669	637	598	580
CYFANSWM	**844**	**808**	**770**	**732**	**702**

Mae'r tabl uchod yn awgrymu y disgwylir lleihad pellach o bron i 200 o ddisgyblion rhwng Ionawr 2018 ac Ionawr 2023.

3.2 Pwysau cyllidebol

Fel llawer o ysgolion eraill ar draws Powys a Chymru, mae'r ddwy ysgol yn wynebu pwysau cyllidebol, a'r rhagamcan yw y bydd cyllideb Ysgol Gynradd Llanfyllin mewn diffyg erbyn blwyddyn ariannol 2019/20[4]:

	Gwir Alldro Cronnus 2017/18	Cyllideb 2018/19	Cyllideb 2019/20	Cyllideb 2020/21
Ysgol Gynradd Llanfyllin	(£18,788)	£2,338	(£1,488)	(£39,376)
Ysgol Uwchradd Llanfyllin	£59,125	£57,133	£101,475	£39,816

Mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol dros y blynyddoedd sydd i ddod, a fydd yn parhau i roi pwysau ar gyllidebau ysgolion. Mae gwariant ysgolion yn parhau i gynyddu oherwydd bod cyflogau yn cynyddu ond nid cynnydd cyfatebol mewn cyllid, yn ogystal â chynnydd mewn costau eraill, er enghraifft costau gwasanaethau a ffioedd arholiadau. Mae angen i ysgolion addasu eu cyllidebau yn rheolaidd a sicrhau arbedion trwy weithredu mewn modd mwy effeithlon er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol.

3.3 Angen darparu cwricwlwm ôl-16 oed deniadol.

Mae'r Cyngor wedi gweld gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n mynychu dosbarthiadau chwech ym Mhowys dros y 5 mlynedd diwethaf, sy'n golygu ei fod yn gynyddol anodd i ddarparu amrywiaeth eang o bynciau i ddysgwyr. Mae nifer y disgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, fel y gwelir yn y tabl canlynol:

[4] Sefyllfa wedi'i ddiweddaru yn dilyn sesiwn cymorth ariannol yr hydref

	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13	Cyfanswm
2015/16	89	111	200
2016/17	72	75	147
2017/18	95	65	160
2018/19	51	55	106

Er mwyn galluogi ysgolion i gwrdd â gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) o ran darpariaeth chweched dosbarth, mae'r Cyngor wedi datblygu partneriaeth rhwng ysgolion, lle gall ddisgyblion ddewis teithio i ysgolion eraill i astudio pynciau penodol. Mae'r costau cludiant ar gyfer y trefniant hwn yn cael eu talu gan y Cyngor, cost o tua £240,000 y flwyddyn. Yn ogystal, mae Ysgol Uwchradd Llanfyllin, yn ogystal ag Ysgol Uwchradd Caereinion ac Ysgol Uwchradd Y Trallwng wedi ffurfio partneriaeth o'r enw 'Trisgol', er mwyn darparu amrywiaeth mwy eang o bynciau i ddisgyblion.

Er y datblygiadau hyn, mae disgwyl i niferoedd disgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin barhau i fod yn is na niferoedd 2015/16 dros y blynyddoedd sydd i ddod, fel rhan o'r gostyngiad a ragwelir yn niferoedd disgyblion Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Mae disgwyl i hyn, a'r disgwyliad y bydd cyllid ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth yn lleihau dros y blynyddoedd nesaf, yn ei wneud hyd yn oed yn fwy anodd i ddarparu cwricwlwm ôl-16 deniadol.

3.4 Ffrwd cyfrwng Cymraeg gymharol fach yn y sector uwchradd.

Mae Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin yn ysgolion dwyieithog dwy ffrwd. Fodd bynnag, mae cyfran y disgyblion cyfrwng Cymraeg yn amrywio'n sylweddol rhwng y ddwy ysgol, gyda'r ffrwd cyfrwng Cymraeg yn llawer llai yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin nag yn Ysgol Gynradd Llanfyllin. Gall hyn arwain at her o ran darparu cwricwlwm cyfrwng Cymraeg cynhwysfawr i ddysgwyr, yn enwedig wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae'r niferoedd cyfrwng Cymraeg presennol fel a ganlyn[5]:

[5] Gwybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol, 20 Tachwedd 2018

	Disgyblion cyfrwng Cymraeg
Blwyddyn 7	25
Blwyddyn 8	23
Blwyddyn 9	20
Blwyddyn 10	33
Blwyddyn 11	31
Blwyddyn 12	9
Blwyddyn 13	10
Cyfanswm	**151**

3.5 Angen gwella ansawdd yr addysg

Disgrifir isod ansawdd yr addysg yn Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin, yn ôl eu harolygiadau diweddaraf gan Estyn a'r ymarfer Categoreiddio Ysgolion diweddaraf a wnaed yn ystod blwyddyn academaidd 2017-18:

i) Estyn

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi arolygiadau diweddaraf Estyn yn y ddwy ysgol:

	Ysgol Gynradd Llanfyllin	Ysgol Uwchradd Llanfyllin
Dyddiad yr Arolygiad	Hydref 2014	Chwefror 2016
Perfformiad Presennol yr Ysgol	Digonol	Digonol
Rhagolygon Gwella'r Ysgol	Digonol	Digonol
Gweithgarwch dilynol	Monitro gan Estyn. Cynhaliwyd ymweliad monitro gan Estyn yn Ionawr 2016 – barnwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da ac fe'i tynnwyd oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen eu monitro gan Estyn.	Angen Gwelliant Sylweddol

ii) Categorïau'r Ysgolion

Mae categorïau diweddaraf y ddwy ysgol, yn unol â System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion 2017, fel a ganlyn:

	Grŵp Safonau	Capasiti i Wella	Categori Cymorth
Ysgol Gynradd Llanfyllin	Amherthnasol	C	Oren
Ysgol Uwchradd Llanfyllin	Amherthnasol	C	Oren

Mae'r wybodaeth yma'n awgrymu bod angen gwella ansawdd yr addysg yn y ddwy ysgol.

3.6 Trafferthion gyda phenodi pennaeth yn y sector cynradd

Er gwneud nifer o ymdrechion i recriwtio pennaeth parhaol, nid oes pennaeth parhaol wedi bod yn Ysgol Gynradd Llanfyllin ers i'r pennaeth blaenorol adael yn 2015.

Ar hyn o bryd mae trefniadau dros dro yn eu lle, ond er mwyn sicrhau y bydd yr addysg gynradd sydd ar gael yn Llanfyllin yn parhau i wella, mae angen sicrhau trefniadau arweinyddiaeth parhaol.

4. OPSIYNAU A YSTYRIWYD

Mae trafodaethau cychwynnol rhwng y Cyngor a chyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin yn awgrymu bod diddordeb mewn symud tuag at fodel addysg pob oed yn Llanfyllin. Mae ymarfer asesu opsiynau wedi'i gyflawni er mwyn ystyried a thrafod ymhellach sut y byddai modd gwneud hyn.

Ystyriwyd yr opsiynau canlynol:

Opsiwn	Disgrifiad
1	Dim newid – yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd i barhau i gael eu rhedeg yn annibynnol
2	Ysgol ffederal pob oed – yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd i ffedereiddio i greu ysgol ffederal pob oed yn Llanfyllin.
3	Ysgol pob oed – yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd i uno i greu ysgol pob oed newydd yn Llanfyllin.

Cyflwynir isod y dadansoddiadau SWOT a wnaed ar bob un o'r tri opsiwn hyn:

Opsiwn 1: Dim Newid – Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin i barhau i weithredu fel ysgolion ar wahân.

Cryfderau	**Gwendidau**
- Dim aflonyddwch i ddisgyblion, rhieni na staff - Mae parch uchel i bob ysgol yn lleol - Dim teithio ychwanegol - Yn cadw darpariaeth gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn Llanfyllin - Ni fydd effaith niweidiol ar y gymuned leol o ganlyniad i golli darpariaeth	- Ar hyn o bryd nid oes arweinyddiaeth barhaol yn ei lle yn yr ysgol gynradd - Ni fyddai'n arwain at sefyllfa ariannol fwy effeithlon - Dwy ysgol ar wahân, felly nid oes trosolwg strategol ar yr addysg sy'n cael ei darparu yn Llanfyllin - Llai o gyfle i wella ansawdd a safonau addysg ar draws y ddau gyfnod addysgol
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
- Cyfle i'r ddwy ysgol weithio gyda'i gilydd yn fwy cydweithredol	- Bygythiad ariannol - Nifer y disgyblion yn gostwng yn yr ysgol uwchradd - Ffrwd cyfrwng Cymraeg gymharol fach yn yr ysgol uwchradd

Opsiwn 2: Ysgol ffederal pob oed – yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd i ffedereiddio i greu ysgol ffederal pob oed yn Llanfyllin.

Cryfderau	**Gwendidau**
- Yn rhoi cyfle gwell i rannu arbenigedd ac arferion da ymhlith staff - Yn rhoi cyfle i wella'r cysylltiadau pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd - Ychydig iawn o aflonyddwch i ddisgyblion, rhieni na staff - Potensial ar gyfer un pennaeth ar draws y ddwy ysgol - Byddai'r ddwy ysgol yn cadw eu hunaniaeth eu hunain - Gallai fod yn fwy derbyniol i ysgolion cynradd eraill yn y dalgylch	- Yn aros fel dwy ysgol ar wahân felly gallai fod rhai tensiynau rhwng y ddwy ysgol - Mae ffedereiddio'n fodel llai safadwy nag uno - Gallai rhieni fod yn anghyfarwydd â'r cysyniad o ysgol 'pob oed' gyda phryderon o bosib am y model - Gallai fod pryderon gan ysgolion cynradd eraill sy'n bwydo'r ysgol uwchradd

- Potensial i redeg yn fwy effeithlon drwy rannu staff ac adnoddau ac yn y blaen - Un corff llywodraethu gyda throsolwg strategol ar y ddwy ysgol - Yn haws dileu trefniant ffederal os na fyddai'r newid yn gweithio - Dim teithio ychwanegol - Yn cadw darpariaeth gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn Llanfyllin - Ni fydd effaith niweidiol ar y gymuned leol o ganlyniad i golli darpariaeth	
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
- Cyfle i'r ddwy ysgol weithio gyda'i gilydd yn fwy cydweithredol - Cyfle i redeg yn fwy effeithlon - Cyfle i wella ansawdd a safonau mewn addysg ar draws y ddau gyfnod addysgol	

Opsiwn 3: Ysgol pob oed – yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd i uno i greu ysgol pob oed newydd yn Llanfyllin.

Cryfderau	Gwendidau
- Yn gyfle i rannu arbenigedd staff ac arferion da ar draws pob cyfnod allweddol - Yn gwella pontio rhwng pob cyfnod allweddol - Ychydig iawn o aflonyddwch i ddisgyblion a rhieni - Byddai modd darparu cwricwlwm mwy priodol i'r holl ddisgyblion - Gallai'r ysgol redeg yn fwy effeithlon drwy rannu staff ac adnoddau ac yn y blaen - Un corff llywodraethu gyda throsolwg strategol ar yr addysg a roddir i ddisgyblion / dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol - Un tîm arweinyddiaeth gyda throsolwg strategol ar yr addysg a roddir i ddisgyblion / dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol	- Effaith ar staff oherwydd byddai angen proses rheoli newid i ddyrannu swyddi yn yr ysgol newydd - Gallai rhieni fod yn anghyfarwydd â'r cysyniad o ysgol 'pob oed' gyda phryderon o bosib am y model - Gallai fod pryderon gan ysgolion cynradd eraill sy'n bwydo'r ysgol uwchradd

- Yn darparu trefniadau arweinyddiaeth parhaol i'r holl ddisgyblion - Dim teithio ychwanegol - Yn cadw darpariaeth gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn Llanfyllin - Ni fydd effaith niweidiol ar y gymuned leol o ganlyniad i golli darpariaeth	
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
- Yn gyfle i bob dysgwr gyflawni safonau uchel o ran cyrhaeddiad a chyflawniad - Cyfle i gyflwyno darpariaeth addysgu a dysgu ragorol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol - Cyfle i ddatblygu trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth gwydn - Cyfle i sicrhau buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol - Cyfle i ddatblygu model addysg gynhwysol gan gwrdd ag anghenion dysgwyr agored i niwed - Cyfle i symleiddio polisïau, gweithdrefnau a chynlluniau gwaith - Potensial i rannu arferion gorau rhwng staff o'r sectorau cynradd ac uwchradd - Cyfle i greu un diwylliant ac ethos - Cyfle i wella ansawdd a safonau mewn addysg ar draws y ddau gyfnod addysgol	- Gallai'r broses bontio i ddisgyblion, staff a rhieni greu ansicrwydd gan effeithio efallai ar nifer y disgyblion, wrth i rieni ddewis ysgolion eraill (efallai y tu allan i'r sir) - Trafferthion gyda recriwtio staff mewn cyfnod o ansefydlogrwydd - Gallai'r ansefydlogrwydd effeithio ar ymdrechion parhaus i wella canlyniadau

5. YR OPSIWN A FFAFRIR A'R RHESYMAU

Ar sail y dadansoddiadau SWOT ac asesiad o'r tri opsiwn a wnaed yn erbyn nifer o amcanion buddsoddi a ffactorau llwyddiant hanfodol, mae Opsiynau 1 a 2 wedi cael eu diystyru.

Mae Opsiwn 1 (Dim Newid – Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin i barhau i weithredu fel ysgolion ar wahân) wedi ei ddiystyru am y rhesymau isod:

- Ar hyn o bryd nid oes arweinyddiaeth barhaol yn ei lle yn yr ysgol gynradd
- Ni fyddai'n arwain at sefyllfa ariannol fwy effeithlon

- Dwy ysgol ar wahân, felly nid oes trosolwg strategol ar yr addysg sy'n cael ei darparu yn Llanfyllin
- Bygythiad ariannol
- Nifer y disgyblion yn gostwng yn yr ysgol uwchradd
- Ffrwd cyfrwng Cymraeg gymharol fach yn yr ysgol uwchradd

Mae Opsiwn 2 (Ysgol Ffederal Pob Oed -–Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin yn ffedereiddio i greu un ysgol ffederal pob oed yn Llanfyllin) wedi ei ddiystyru am y rhesymau canlynol:

- Yn aros fel dwy ysgol ar wahân felly gallai fod rhai tensiynau rhwng y ddwy ysgol
- Mae ffedereiddio'n fodel llai safadwy nag uno

Yr opsiwn a ffafrir yw:

Opsiwn 3 - Ysgol pob oed – yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd i uno i greu ysgol pob oed newydd yn Llanfyllin.

Dyma sail y cynnig presennol y mae'r Cyngor yn ymgynghori arno. Trafodwn y cynnig ymhellach yn yr adran ganlynol.

RHAN B Y CYNNIG

6. TROSOLWG

Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar gynigion i sefydlu ysgol pob oed newydd i ddisgyblion 4-18 oed yn Llanfyllin. Dyma'r cynigion:

- Cau Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin
- Sefydlu ysgol pob oed ddwyieithog newydd i ddisgyblion 4-18 oed ar safleoedd presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin

Y dyddiad targed presennol yw cau'r ddwy ysgol ar 31 Awst 2020 gyda'r ysgol newydd i agor ar 1 Medi 2020.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai manylion yr ysgol newydd fel y nodir yn y tabl isod:

Enw	Byddai enw'r ysgol newydd yn cael ei gynnig gan y corff llywodraethu dros dro, a'i gymeradwyo gan Ddaliwr y Portffolio Addysg.
Niferoedd derbyn sydd mewn golwg, a'r trefniadau derbyn	Er mai ysgol 4-18 fyddai'r ysgol newydd, byddai'r Cyngor yn parhau i rannu'r rhif derbyn rhwng y cyfnod cynradd a'r cyfnod uwchradd. 27 fyddai'r rhif derbyn ar gyfer y cyfnod cynradd, a 146 fyddai'r rhif derbyn ar gyfer y cyfnod uwchradd. Dyrennir lle yn awtomatig yn y cyfnod uwchradd i ddisgyblion sy'n byw o fewn ardal dalgylch presennol Ysgol Uwchradd Llanfyllin sy'n mynychu cyfnod cynradd yr ysgol. Byddai'n rhaid i ddisgyblion o ysgolion cynradd eraill fyddai'n dymuno ymuno â'r ysgol ym mlwyddyn 7 wneud cais am le yn unol â threfniadau derbyn y Cyngor.
Ystod oed	4 – 18
Capasiti lleoedd disgyblion	Byddai'r capasiti yn cael ei rannu rhwng y cyfnodau cynradd ac uwchradd, a byddai yr un peth â chapasiti presennol y ddwy ysgol. Capasiti'r cyfnod cynradd fyddai 185 + 26 o leoedd meithrin. Capasiti'r cyfnod uwchradd fyddai 916.
Lleoliad	Bydd yr ysgol newydd yn gweithredu o safleoedd presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin
Categori	Ysgol Gymunedol
Categori iaith	Cynradd – dwy ffrwd

	Uwchradd – dwy ffrwd – categori dwyieithrwydd 2C
Manylion yr adeiladau ysgol	Byddai adeiladau'r ysgol yn aros yr un fath ag ar hyn o bryd
Trefniadau cludiant o'r cartref i'r ysgol	Byddai cludiant o'r cartref i'r ysgol yn parhau i gael ei ddarparu'n unol â pholisi cludiant y Cyngor

7. BETH YW YSGOL POB OED?

Ysgol pob oed yw ysgol sy'n darparu addysg gynradd ac uwchradd. Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg gan un pennaeth a chorff llywodraethol, mae un gyllideb sydd gan yr ysgol.

Er y byddai disgyblion oed cynradd ac uwchradd yn mynychu un sefydliad addysgol, ac y byddai rhywfaint o gyfle i rannu cyfleusterau ac adnoddau, mae ysgolion pob oed yn parhau i ddarparu mynediad i gyfleusterau ar wahân ar gyfer plant o wahanol oedrannau. Byddai hyn yn cynnwys lle addysgu ar wahân, yn ogystal ag ardaloedd ar wahân i'w defnyddio yn ystod amseroedd egwyl.

Mae un ysgol pob oed prif ffrwd eisoes yn bodoli ym Mhowys – Ysgol Bro Hyddgen ym Machynlleth, a sefydlwyd yn 2014 yn dilyn cyfuno Ysgol G.G. Machynlleth ac Ysgol Bro Ddyfi. Mae'n fodel sy'n dod yn fwy poblogaidd yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle gwelir y model fel ffordd o sicrhau darpariaeth addysg barhaus.

Mae'r model hefyd yn dod â nifer o fanteision i ddisgyblion trwy roi'r cyfle iddynt trosglwyddo'n esmwyth trwy pob cyfnod addysgol.

Dyma rai o'r ysgolion pob oed sy'n bodoli eisoes yng Nghymru:

- Cymuned Dysgu Abertileri
- Cymuned Dysgu Ebbw Fawr
- Ysgol Idris Davies
- Ysgol St Bridgid's
- Ysgol Bae Baglan
- Ysgol Bro Hyddgen
- Ysgol Bro Teifi
- Ysgol Bro Pedr
- Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
- Ysgol Caer Elen
- Ysgol Bro Dur
- Ysgol Henry Richard
- Ysgol Llanhari
- Ysgol Gymraeg Gartholwg

8. RHESYMAU DROS Y CYNNIG

Mae'r Cyngor yn cynnig sefydlu ysgol pob oed newydd yn Llanfyllin am y rhesymau canlynol:

- I wella'r canlyniadau addysgol
    - Mwy o gyfleoedd i staff symud rhwng cyfnodau allweddol a datblygu arbenigedd mewn meysydd pwnc penodol
    - Cyfleoedd i ddisgyblion o bob cyfnod allweddol elwa o arbenigedd staff mewn meysydd pwnc penodol
    - Cyfleoedd cwricwlaidd ac allgyrsiol gwell i ddisgyblion ym mhob cyfnod allweddol

- I wella'r ddarpariaeth addysgol
    - Cyfle i greu cwricwlwm ehangach er mwyn cwrdd ag anghenion disgyblion ym mhob cyfnod allweddol
    - Cyfle i wella ystod ac ansawdd y cyfleusterau a'r adnoddau dysgu sydd ar gael, er mantais i ddisgyblion ym mhob cyfnod allweddol
    - Cyfle gwell i sicrhau parhad gyda'r cymorth a roddir i ddisgyblion agored i niwed
    - Cyfleoedd gwell ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog.

- I wella'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth
    - Cyfle i sicrhau arweinyddiaeth gadarn o ansawdd uchel ar draws pob cyfnod allweddol
    - Cyfle gwell i'r pennaeth ddosbarthu tasgau arweinyddiaeth allweddol i nifer fwy o staff ar draws pob cyfnod addysgol
    - Gwell cyfleoedd i'r corff llywodraethol gael trosolwg strategol o addysg ar gyfer disgyblion o 5 i 18 oed

- I sicrhau darpariaeth addysg fwy effeithlon
    - Potensial i'r ysgol weithredu'n fwy effeithlon drwy wneud defnydd mwy effeithlon o staff
    - Potensial i rannu adnoddau ar draws y cyfnodau allweddol

- I sicrhau pontio mwy di-dor rhwng y cyfnodau allweddol
    - Cyfle i sicrhau datblygiad llyfn a di-dor rhwng pob cyfnod addysgol
    - Cyfle gwell i sicrhau parhad gyda'r cymorth a roddir i ddisgyblion agored i niwed drwy gydol eu gyrfaoedd ysgol

9 MANTEISION AC ANFANTEISION

Mae manteision ac anfanteision y cynnig presennol ar gyfer Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin wedi eu crynhoi isod:

Manteision	Anfanteision
- Yn gyfle i rannu arbenigedd staff ac arferion da ar draws pob cyfnod allweddol - Yn gwella pontio rhwng pob cyfnod allweddol - Ychydig iawn o effaith ar ddisgyblion a rhieni - Byddai modd darparu cwricwlwm mwy priodol i'r holl ddisgyblion - Gallai'r ysgol redeg yn fwy effeithlon drwy rannu staff ac adnoddau ac yn y blaen - Un corff llywodraethu gyda throsolwg strategol ar yr addysg a roddir i ddisgyblion / dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol - Un tîm arweinyddiaeth gyda throsolwg strategol ar yr addysg a roddir i ddisgyblion / dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol - Yn darparu trefniadau arweinyddiaeth parhaol i'r holl ddisgyblion	- Effaith ar staff oherwydd byddai angen proses rheoli newid i ddyrannu swyddi yn yr ysgol newydd - Gallai rhieni fod yn anghyfarwydd â'r cysyniad o ysgol 'pob oed' gyda phryderon o bosib am y model - Gallai fod pryderon gan ysgolion cynradd eraill sy'n bwydo'r ysgol uwchradd

10. RISGIAU

Fel gyda phob cynnig ad-drefnu, mae risgiau'n gysylltiedig â'r cynigion presennol ar gyfer Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin.

Disgrifir y risgiau hyn isod ynghyd â mesurau lliniaru y gellid eu cymryd:

Risg	Tebygolrwydd	Effaith	Mesurau lliniaru
Rhieni ddim eisiau i'w plant fynychu ysgol pob oed ac felly'n dewis eu symud i ysgolion eraill	Isel	Isel	Byddai ymgysylltu gyda rhieni'n digwydd drwy gydol y broses. Pe bai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig, byddai cyfleoedd yn cael eu rhoi i rieni

			gyfrannu at y broses o sefydlu'r ysgol newydd.
Diffyg cefnogaeth gan ysgolion eraill yn nalgylch Llanfyllin	Isel	Isel	Byddai cyfle i ysgolion cynradd eraill yn nalgylch Llanfyllin chwarae rhan lawn drwy gydol y broses.
Yn anodd i'r ddwy ysgol bresennol ganolbwyntio ar wella canlyniadau oherwydd yr ansicrwydd a achosir gan y cynnig – gallai effeithio ar safonau	Canolig	Canolig	Bydd y Cyngor yn parhau i roi cyngor a chymorth i'r ddwy ysgol a bydd corff llywodraethu cysgodol yr ysgol newydd yn sicrhau bod safonau a pherfformiad yn parhau i wella dros y cyfnod pontio.
Gallai'r effaith negyddol ar gymhelliad staff dros y cyfnod pontio arwain at rai staff yn gadael cyn sefydlu'r ysgol newydd	Isel	Isel	Y gobaith yw y bydd proses dryloyw a bod staff yn gallu cymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori'n helpu i leihau unrhyw ddiffyg cymhelliad. Y gobaith hefyd yw y byddai'r rhagolygon o fod yn rhan o ddatblygiad trawsnewid yn helpu i liniaru'r risg yma. Pe bai'r Cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r Cyngor yn sefydlu ffrwd waith Rheoli Newid i weithio'n agos â'r staff a'r corff llywodraethu cysgodol gan sicrhau bod y trefniadau pontio'n cael eu rheoli'n dda.
Newidiadau o ganlyniad i raglenni newydd y Cyngor, e.e. fformiwla gyllido newydd, trawsnewid ADY	Canolig	Canolig	

11. AMSERLEN WEITHREDU BOSIB

Pe bai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynigion, mae'r amserlen weithredu bosib fel a ganlyn:

Ymgynghori Ffurfiol	27 Tachwedd – 31 Ionawr 2019
Adroddiad Ymgynghori i'w gyhoeddi a'i ystyried gan y Cyngor Llawn a'r Cabinet	Chwefror / Mawrth 2019
Os yw'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen:	
Cyhoeddi Hysbysiad Statudol (cyfnod o 28 diwrnod i wrthwynebu)	Ebrill / Mai 2019
Adroddiad Gwrthwynebiadau i'w gyhoeddi a'i ystyried gan y Cabinet	Mehefin / Gorffennaf 2019
Os yw'r Cabinet yn cymeradwyo gweithredu:	
Sefydlu corff llywodraethu dros dro	Medi 2019
Penodi pennaeth	Erbyn diwedd 2019
Datblygu a phenodi strwythur staffio newydd	Gwanwyn 2020
Yr ysgolion presennol yn cau	31 Awst 2020
Yr ysgol newydd yn agor	1 Medi 2020

RHAN C EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG

12. EFFAITH AR DDISGYBLION

i) Disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin ar hyn o bryd

Oherwydd y byddai gweithredu'r cynnig yn gweld parhad yr addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn Llanfyllin, ar safleoedd presennol y ddwy ysgol, rhagwelir mai ychydig iawn o newid a fyddai i'r disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol yn Llanfyllin ar hyn o bryd.

Rhagwelir y byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu yn eu hadeilad presennol – h.y. byddai disgyblion hyd at flwyddyn 6 yn cael eu haddysgu ar safle presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin a byddai disgyblion o flwyddyn 7 ymlaen yn cael eu haddysgu ar safle presennol Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Fodd bynnag byddai cyfleoedd gwell i ddisgyblion gael defnyddio cyfleusterau ar y ddau safle, fel y byddai'n briodol. Yn benodol, byddai hyn o fantais i ddisgyblion oed cynradd a fyddai'n elwa o gyfleoedd gwell i ddefnyddio cyfleusterau arbenigol a ddefnyddir yn bennaf gan ddisgyblion oed uwchradd.

Byddai gweithredu'r cynnig hefyd yn cynnig cyfleoedd gwell i ddisgyblion ym mhob cyfnod allweddol elwa o arbenigedd staff drwy gydol eu hamser yn yr ysgol, ac i ddarparu parhad gyda'r cymorth a roddir i ddisgyblion agored i niwed drwy gydol eu hamser hwythau yn yr ysgol. Byddai hefyd cyfleoedd gwell ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog.

Disgwylir hefyd y byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at well trefniadau trosglwyddo rhwng y cyfnodau addysgol, a ddylai gael effaith bositif ar les disgyblion, a'u perfformiad addysgol.

Oherwydd y byddai'r addysg yn parhau i gael ei darparu ar y safleoedd presennol, nid ydym yn rhagweld y byddai angen unrhyw gludiant cartref i'r ysgol ychwanegol ar gyfer unrhyw un o'r disgyblion. Byddai cludiant yn parhau i gael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor.

ii) Disgyblion yn mynychu ysgolion cynradd eraill yn nalgylch Llanfyllin

Mae Ysgol Uwchradd Llanfyllin yn gweithredu fel ysgol uwchradd ardal ar gyfer disgyblion sy'n mynychu nifer o ysgolion cynradd yn yr ardal dalgylch yn ogystal â disgyblion sy'n mynychu Ysgol G.G. Llanfyllin. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda chynnig i sefydlu ysgol pob oed yn Llanfyllin, byddai disgyblion o ysgolion cynradd eraill yn y dalgylch yn parhau i drosglwyddo i'r ysgol ym mlwyddyn 7. Felly, cydnabyddir y byddai effaith ar y disgyblion hyn,

gan y byddant yn trosglwyddo i ysgol bon oed yn hytrach nag ysgol uwchradd. Fodd bynnag, ni ragwelir y byddai'r effaith yn un negyddol.

Byddai angen rheoli'r trefniadau trosglwyddo ar gyfer disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd eraill yn yr ardal dalgylch yn ofalus, i sicrhau bod y disgyblion yn cael eu hintegreiddio'n llawn i'r ysgol, ac nad ydynt dan unrhyw anfantais o'i gymharu â disgyblion sydd wedi mynychu cyfnod cynradd yr ysgol bob oed.

Mae'r cynnig i sefydlu ysgol bob oed newydd yn Llanfyllin hefyd yn cynnig cyfle i gryfhau'r berthynas bresennol gydag ysgolion cynradd eraill yn yr ardal dalgylch, er mwyn darparu gwell cyfleoedd i ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgolion hyn, ac i ddarparu gwell trefniadau trosglwyddo iddynt.

iii) Disgyblion yn mynychu ysgolion cynradd neu uwchradd heb fod yn nalgylch Llanfyllin

Nid ydym yn rhagweld y bydd gweithredu'r cynnig yn effeithio ar ddisgyblion yn mynychu ysgolion cynradd neu uwchradd nad ydynt yn nalgylch Llanfyllin.

13. EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU MEWN ADDYSG

i) Safonau, lles ac agweddau at ddysgu

Safonau a chynnydd grwpiau penodol yn gyffredinol, ac mewn sgiliau

Byddai'r Cyngor yn disgwyl i weithrediad y cynnig i sefydlu ysgol bob oed gael effaith bositif ar safonau a chynnydd yn gyffredinol. Gobaith y Cyngor yw y byddai gweithrediad y cynnig yn arwain at sicrhau trefniadau arweinyddiaeth barhaol ar gyfer yr holl ddisgyblion yn Llanfyllin, a ddylai arwain at wella safonau i ddisgyblion o bob oed.

Rhagwelir y byddai gweithrediad y cynnig yn cael effaith bositif ar safonau a chynnydd ar gyfer yr holl ddisgyblion, yn cynnwys disgyblion sy'n perthyn i grwpiau penodol, er enghraifft Saesneg fel Iaith Ychwanegol, yn gymwys am Ginio Ysgol am Ddim, Plant sy'n Derbyn Gofal, Anghenion Dysgu Ychwanegol. Byddai modd gweithredu un continwwm dysgu ar draws yr holl oedrannau, gan olygu y byddai monitor a chefnogi disgyblion yn fwy effeithiol trwy eu gyrfaoedd yn yr ysgol. Byddai hyn yn fuddiol i ddisgyblion sy'n perthyn i grwpiau penodol, yn cynnwys y rheiny a nodir uchod, gan y byddai gwell cyfleoedd ar gyfer rhannu arbenigedd staff, yn cynnwys arbenigedd wrth weithio gyda'r grwpiau hyn o ddisgyblion ar draws yr holl oedrannau, gan sicrhau y gellir eu cefnogi'n fwy effeithiol trwy eu hamser yn yr ysgol.

Rhagwelir hefyd y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith bositif ar sgiliau'r holl ddisgyblion, yn cynnwys llythrennedd, rhifedd a TGCh, trwy well

cyfleoedd i rannu arbenigedd staff ac adnoddau ar draws yr holl oedrannau, a thrwy'r gallu i dargedu ar draws pob cyfnod addysgol.

Lles ac agweddau at ddysgu

Byddai gweithrediad y cynnig yn golygu y byddai disgyblion yn Llanfyllin yn mynychu'r un ysgol trwy eu gyrfaoedd ysgol. Byddai hyn yn osgoi unrhyw drafferthion a all godi pan mae disgyblion yn symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, ac felly byddai'n cael effaith bositif ar les disgyblion.

Byddai gweithredu'r cynnig hefyd yn golygu y byddai disgyblion yn yr oedrannau cynradd yn cael gwell cyfleoedd i gael mynediad i gyfleusterau arbenigol sydd ar gael yn yr ysgol uwchradd ar hyn o bryd, yn cynnwys addysg gorfforol, gwyddoniaeth, technoleg a drama. Gobeithir y bydd hyn yn cael effaith bositif ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn y sector cynradd, ac ar eu hagweddau tuag at ddysgu.

ii) Profiadau dysgu ac addysgu

Ansawdd yr addysgu

Byddai'r Cyngor yn disgwyl i weithrediad y cynnig arwain at welliannau yn ansawdd yr addysgu yn Llanfyllin, oherwydd y gwell cyfleoedd datblygu proffesiynol a chydweithio y gellir eu cynnig i staff, er enghraifft gweithio ar draws cyfnodau addysgol, gweithio gyda chymheiriaid, gweithio mewn trioedd, a rhannu egwyddorion pedagogaidd.

Hyd a lled a chydbwysedd y cwricwlwm a pha mor briodol yw

Rhagwelir y bydd sefydlu ysgol bob oed newydd yn darparu gwell cyfleoedd i ddarparu cwricwlwm eang, cytbwys a phriodol ar gyfer disgyblion yn Llanfyllin.

Byddai gweithredu'r cynnig hefyd yn rhoi cyfle i ailgynllunio'r cwricwlwm sy'n cael ei gynnig yn Llanfyllin, er mwyn cwrdd â gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru, fel yr amlinellir yn 'Cenhadaeth ein Cenedl', sy'n nodi uchelgais i'r holl ysgolion ddatblygu i fod yn sefydliadau dysgu.

Byddai'r disgyblion yn elwa o gysylltiadau mwy agos rhwng y gwahanol gyfnodau addysgol, a'r cyfle i gael mynediad i athrawon arbenigol. Byddai disgyblion oed cynradd hefyd yn elwa o'r cyfle i gael mynediad i gyfleusterau arbenigol sydd wedi'u lleoli yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin, a allai gynnwys cyfleusterau addysg gorfforol, gwyddoniaeth, technoleg a drama.

Darpariaeth sgiliau

Rhagwelir y byddai gweithrediad y cynnig yn cael effaith bositif ar sgiliau'r holl ddisgyblion, yn cynnwys llythrennedd, rhifedd a TGCh, trwy ddarparu

gwell cyfleoedd i rannu arbenigedd staff ac adnoddau ar draws pob oedran, a thrwy'r gallu i dargedu ar draws pob cyfnod addysgol.

iii) Gofal cymorth ac arweiniad

Olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu, datblygiad personol a diogelu

Byddai'r Cyngor yn disgwyl i weithrediad y cynnig arwain at welliannau yn y gofal, cefnogaeth ac arweiniad a ddarperir i ddisgyblion. Byddai disgyblion yn rhan o un sefydliad trwy eu gyrfaoedd addysgol, a fyddai'n arwain at welliannau yn y trefniadau olrhain a monitor y gellir eu rhoi yn eu lle trwy eu cyfnod yn yr ysgol, a byddai hefyd yn galluogi i drefniadau trosglwyddo mwy effeithiol gael eu gweithredu yn ystod cyfnod y disgybl yn yr ysgol.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai disgyblion yn rhan o gorff mwy o ddisgyblion, a byddai disgwyl i hyn gael effaith bositif ar eu datblygiad personol a'r cyfleoedd y gellir eu cynnig iddynt. Fel rhan o hyn, byddai modd cynnig cyfleoedd i ddisgyblion hŷn i ddarparu cefnogaeth i ddisgyblion iau.

iv) Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ansawdd ac effeithiolrwydd yr arweinwyr a'r rheolwyr, prosesau hunan-werthuso a chynlluniau gwella

Rhagwelir y byddai sefydlu ysgol bob oed newydd yn Llanfyllin yn arwain at welliannau o ran arweinyddiaeth a rheolaeth. Nid oes pennaeth parhaol gan Ysgol G.G. Llanfyllin ar hyn o bryd, er sawl ymgais i recriwtio ers i'r pennaeth blaenorol adael yn 2015. Gobaith y Cyngor yw y byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at sicrhau trefniadau arweinyddiaeth parhaol ar gyfer yr holl ddisgyblion yn Llanfyllin, a ddylai arwain at welliannau mewn trefniadau arweinyddiaeth ar draws yr ysgol.

Byddai sefydlu ysgol bob oed newydd hefyd yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth wedi'i dosbarthu ar draws y cyfnodau cynradd ac uwchradd, a byddai'n galluogi i arweinwyr canol gael eu datblygu'n fwy effeithiol. Byddai mwy o gyfleoedd datblygu hefyd ar gael i staff, yn cynnwys mwy o gyfleoedd i ddatblygu arbenigedd ar draws yr ysgol, ac i weithio ar draws gwahanol gyfnodau allweddol.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai un corff llywodraethol yn cymryd lle'r ddau gorff llywodraethol presennol, a ddylai ddarparu trefniadau llywodraethu mwy cadarn.

Byddai sefydlu ysgol bob oed newydd yn darapru gwell cyfleoedd i ddatblygu prosesau hunan-arfarnu cadarn y byddai modd eu gweithredu ar draws pob cyfnod allweddol, gan arwain at welliannau i ddysgwyr, yn ogystal â gwell cyfleoedd i gynllunio'n fwy effeithiol ar draws yr holl amrediad oedran.

Dysgu proffesiynol

Byddai gweithredu'r cynnig yn darparu gwell cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff trwy ddarparu mwy o gyfleoedd ar gweithio ar draws cyfnodau, cyfleoedd i ddatblygu arweinwyr yn fwy effeithiol a mwy o gyfleoedd i ddatblygu arweinwyr canol.

Defnydd o adnoddau

Pe bai ysgol bob oed newydd yn cael ei sefydlu, byddai'r ysgol yn cael ei hariannu fel un ysgol, a byddai'n cael ei rhedeg gan un corff llywodraethol. Byddai hyn yn galluogi i'r ysgol weithredu'n fwy effeithiol o'i gymharu â'r trefniadau presennol, a dylai arwain at arbedion ariannol trwy rannu staffio a rhannu adnoddau eraill.

v) Yr effaith ar allu'r ysgol i ddarparu'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaenol ac ym mhob cyfnod allweddol

Ni ragwelir y byddai sefydlu ysgol bob oed newydd yn cael effaith negyddol ar allu'r ysgol i ddarparu'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod Sylfaen a phob cyfnod allweddol. Byddai'r ysgol yn parhau i weithredu o safleoedd presennol Ysgol G.G. Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin, ac ni fyddai disgwyl unrhyw newid sylweddol yng nghyfanswm y niferoedd disgyblion ar draws y ddau safle.

Mae'n bosibl y byddai effaith bositif ar y gallu i ddarparu'r cwricwlwm llawn oherwydd y cyfle i gael mynediad i arbenigedd staff ar draws pob oedran, ac i rannu adnoddau eraill fel y bo'n briodol. Hefyd, byddai mwy o gyfle i ddisgyblion oed cynradd elwa o gyfleusterau uwchradd arbenigol, er enghraifft labordai gwyddoniaeth, a fyddai'n darparu cyfleoedd gwell i ddarparu'r cwricwlwm llawn i ddisgyblion.

vi) Yr effaith ar ysgolion eraill

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, mae'n bosib y byddai rhai disgyblion yn dewis mynd i ysgolion eraill yn lle'r ysgol pob oed newydd sydd mewn golwg. Fodd bynnag, nid yw'n debygol y byddai llawer yn dewis gwneud hyn. Felly mae'n annhebygol y byddai gweithredu'r cynigion yn effeithio ar ansawdd a safonau'r addysg yn yr ysgolion hyn, gan gynnwys safonau, lles ac agweddau tuag at ddysgu, profiadau addysgu a dysgu, gofal cymorth ac arweiniad, arweinyddiaeth a rheolaeth, nac ar allu'r ysgolion i ddarparu'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen ac ym mhob cyfnod addysgol.

14. EFFAITH ARIANNOL

i) Cyllid refeniw

Ar sail fformiwla ariannu presennol y Cyngor ar gyfer ysgolion, mae'r cyllid y byddai'n cael ei ddarparu i Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin yn 20/21 fel a ganlyn (ar sail **amcan-nifer** y disgyblion ym mhob ysgol ym mis Medi 2020):

Amcan-gyllid yr ysgol uwchradd 20/21	£2,998,279
Amcan-gyllid yr ysgol gynradd 20/21	£533,935
Cyfanswm	**£3,532,314**

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cyflawni adolygiad o'i fformiwla ariannu teg a'r disgwyl yw y bydd yn cael ei weithredu o flwyddyn ariannol 2019/20 ymlaen.

Oherwydd na wyddom ar hyn o bryd beth fydd canlyniad yr adolygiad o'r fformiwla ariannu teg, ni allwn roi amcan o beth fyddai'r effaith ariannol. Fodd bynnag, byddai disgwyl i'r ysgol newydd weithredu o fewn y gyllideb fydd yn cael ei dyrannu iddi ar sail y fformiwla ariannu teg newydd.

P'un ai y byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at arbedion ariannol i'r Cyngor neu beidio, y gobaith drwy sefydlu ysgol pob oed newydd yw y gallai'r ysgol wneud arbedion mewnol a rhedeg yn fwy effeithlon gan felly wneud y defnydd mwyaf o'r cyllid a fyddai'n dod gan y Cyngor.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r ysgolion presennol ond yn derbyn cyllid fformiwla am y gyfran o'r flwyddyn ariannol y byddent ar agor, e.e. os yw ysgol yn cau ar 31 Awst, byddai ond yn derbyn cyllid am bum mis cyntaf y flwyddyn ariannol (5/12 rhan o ddyraniad y fformiwla). Pan fyddai'r ysgol(ion) yn cau, byddai unrhyw falans (gwarged neu ddiffyg) yn mynd yn ôl i'r Cyngor.

Amcangyfrifir ar hyn o bryd y byddai gan y ddwy ysgol ddiffyg net o tua £100k-£150k erbyn mis Medi 2020; byddai angen dileu'r ddyled hon yn unol â Chynllun Ariannu Ysgolion y Cyngor pe bai'r cynnig presennol yn cael ei weithredu.

Mae'r Cyngor yn darparu cyllid i gefnogi ysgolion wrth iddynt drosglwyddo i fodelau llywodraethu newydd i gefnogi'r gwaith ychwanegol sydd ei angen wrth ddatblygu strwythurau staffio, cynllunio ar gyfer y cwricwlwm ayb. Os bydd y Cyngor yn parhau gyda'r cynnig, byddai'r swm o gyllid i gael ei ddarparu i gefnogi'r trosglwyddiad yn cael ei gytuno gyda'r corf llywodraethol dros dro.

ii) Cyllid cyfalaf

Ni fyddai angen unrhyw gyllid cyfalaf i weithredu'r cynnig. Byddai'r ysgol newydd yn cael ei lleoli ar safleoedd presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Gall yr adeiladau presennol dderbyn y nifer bresennol a'r amcan-nifer o ddisgyblion. Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn arwain at dderbyneb cyfalaf.

15. EFFAITH AR STAFF

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin yn cau, ac ysgol newydd yn agor gyda chorff llywodraethu newydd. Pe bai'r cynnig yn symud yn ei flaen, byddai corff llywodraethu dros dro'n cael ei benodi yn y cyfamser hyd nes y byddai'r ysgol newydd yn agor.

Byddai'r corff llywodraethu dros dro'n gyfrifol am benodi pennaeth ar gyfer yr ysgol newydd, ac yna'n gweithio gyda'r pennaeth i ddatblygu strwythurau arweinyddiaeth, rheolaeth a staffio'r ysgol newydd.

Byddai'r strwythur staffio newydd yn cael ei weithredu'n unol â'r polisïau Adnoddau Dynol perthnasol ar gyfer staff addysgu a chymorth. Fel rhan o'r broses hon, byddai cyfle i'r corff llywodraethu dros dro 'glustnodi' holl swyddi'r staff addysgu a swyddi cysylltiedig ar gyfer staff a gyflogir ar hyn o bryd yn yr ysgolion presennol, yn y lle cyntaf.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r holl staff glanhau ac arlwyo a gyflogir yn ganolog gan y Cyngor ar hyn o bryd yn cael eu cefnogi gan y polisïau Adnoddau Dynol sy'n berthnasol i staff y Cyngor.

16. TIR AC ADEILADAU

i) Effaith ar ansawdd yr adeiladau ar gyfer disgyblion

Oherwydd bod y cynnig yn un i sefydlu ysgol newydd ar safleoedd presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin, ni fyddai effaith ar ansawdd yr adeiladau ar gyfer disgyblion.

ii) Effaith ar adeiladau

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r ysgol newydd yn cael ei lleoli ar safleoedd presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Ni fyddai angen trosglwyddo na gwerthu tir.

iii) Unrhyw waith adeiladau sydd ei angen i sicrhau bod lle ar gyfer plant fydd yn trosglwyddo

Bydd lle ar gyfer y disgyblion presennol yn yr adeiladau presennol. Ni fyddai angen unrhyw waith adeiladu i symud ymlaen gyda'r cynnig.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ymwybodol bod angen gwella ansawdd yr adeiladau yn y ddwy ysgol, a bydd hyn yn cael ei ystyried yn unol â'r broses a amlinellir yng Nghynllun Rheoli Asedau'r Cyngor 2018. Mae'r cynllun hwn yn nodi bod buddsoddiad mewn ysgolion yn cael ei flaenoriaethau yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:

- *'Cyflwr, Addasrwydd, Cynaladwyedd*
- *Digonolrwydd; a*
- *Materion Iechyd a Diogelwch.*

Hefyd, rhoddir ystyriaeth i a yw ysgol yn rhan o ddatblygiad ad-drefnu ysgolion strategol ar hyn o bryd neu yn y dyfodol[6]*.*

Os penderfynnir bod angen buddsoddiad cyfalaf, byddai angen i'r Cyngor gyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

17. TEITHIO A CHLUDIANT

i) Effaith ar siwrneiau disgyblion i'r ysgol

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r addysg gynradd ac uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn parhau i gael ei darparu yn yr un lle ag ar hyn o bryd. Nid ydym yn rhagweld y byddai hyn yn effeithio ar siwrneiau disgyblion i'r ysgol.

ii) Effaith ar gostau cludiant ysgol

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai cludiant o'r cartref i'r ysgol yn parhau i gael ei ddarparu'n unol â Pholisi Cludiant Ysgol y Cyngor a Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Mae Polisi presennol y Cyngor ar Gludiant o'r Cartref i'r Ysgol ar gael ar-lein yn http://www.powys.gov.uk/cy/ysgolion-a-myfyrwyr/gwneud-cais-am-gludiant-ysgol/.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn parhau i gael ei darparu yn Llanfyllin. Felly

6 https://powys.moderngov.co.uk/documents/s31000/Appendix%201%20SAMP%20FINAL%2025%20Sept%202019.pdf

nid ydym yn rhagweld y byddai angen unrhyw gludiant ychwanegol o'r cartref i'r ysgol.

iii) Llwybrau cerdded i'r ysgol

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r llwybrau cerdded i'r ysgol newydd yr un fath â'r llwybrau cerdded presennol i Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin.

18. DERBYN DISGYBLION I'R YSGOL

Y Cyngor sy'n gweinyddu'r broses o dderbyn disgyblion i'r ddwy ysgol bresennol. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r broses o dderbyn disgyblion i'r ysgol newydd yn parhau i gael ei gweinyddu gan y Cyngor yn unol â Pholisi Derbyn y Cyngor, sydd ar gael ar-lein yn: https://cwsmer.powys.gov.uk/article/3726/Gwneud-Cais-am-Le-Mewn-Ysgol.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai lleoedd yn cael eu dyrannu yn yr ysgol newydd i ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgolion ar hyn o bryd. Byddai lleoedd yng nghyfnod uwchradd yr ysgol yn cael eu dyrannu'n awtomatig i ddisgyblion sydd yn byw yn ardal dalgylch presennol Ysgol Uwchradd Llanfyllin sydd yn mynychu cyfnod cynradd yr ysgol pan fyddai'n bryd iddynt drosglwyddo i'r cyfnod uwchradd.

Byddai'n rhaid i ddisgyblion o ysgolion cynradd eraill fyddai'n dymuno ymuno â'r ysgol ym mlwyddyn 7 wneud cais am le yn unol â threfniadau derbyn y Cyngor.

Byddai'n rhaid i ddisgyblion newydd fyddai'n dymuno mynychu'r ysgol wneud cais am le yn unol â threfniadau derbyn y Cyngor.

19. EFFAITH AR DREFNIADAU LLYWODRAETHU

Byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at sefydlu ysgol pob oed newydd i ddisgyblion 4-18 oed ar safleoedd presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Byddai un corff llywodraethol yn gyfrifol am yr ysgol, a fyddaia'n cymryd lle'r ddau gorff llywodraethol presennol. Byddai Offeryn Llywodraethu newydd yn cael ei ddatblygu yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Mae'n debygol y bydd hyn yn cynnwys y nifer canlynol o lywodraethwyr:

Categori llywodraethwr	Nifer
Rhiant Lywodraethwr	6
Llywodraethwr yr AALl	5
Athro Lywodraethwr	2
Llywodraethwr Staff	1
Llywodraethwyr Cymunedol	5
Pennaeth	1

Pe bai'r cynnig i sefydlu ysgol 4-18 newydd yn cael ei gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor, byddai corff llywodraethol dros dro yn cael ei sefydlu i oruchwylio'r trosglwyddiad strategol a gweithreol i'r ysgol newydd. Byddai cyfansoddiad y corff llywodraethol dros dro yn unol â'r tabl uchod.

Byddai'r corff llywodraethol dros dro yn cael ei benodi o aelodau presennol y ddau gorff llywodraethol. Byddai'r corff llywodraethol dros dro yn gyfrifol am benodi Pennaeth i'r ysgol newydd, a datblygu strwythur staffio newydd ar gyfer yr ysgol ar y cyd â'r Pennaeth.

Byddai corff llywodraethol parhaol yn cael ei sefydlu pan fyddai'r ysgol newydd yn agor yn ffurfiol, yn seiliedig ar yr Offeryn Llywodraethu a amlinellir uchod.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ar reoliadau newydd ar gyfer cyfansoddiad cyrff llywodraethol yn ystod 2017. Pe bai unrhyw reoliadau newydd yn do di rym yn y dyfodol, mae'n debygol y byddai angen newidiadau i gyfansoddiad y corff llywodraethol.

20. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG (CSGA)

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) y Cyngor ar gyfer 2017-20 yn nodi nod y Cyngor i ddarparu cyfle cyfartal i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg ym Mhowys, ac ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu 'seilwaith a fydd yn galluogi i'r holl ddisgyblion gael mynediad i ddarpariaeth llawn yn y Gymraeg neu'r Saesneg trwy bob cyfnod addysgol'.

Byddai gweithredu'r cynnig yn sicrhau mynediad parhaus i addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg cynradd ac uwchradd yn Llanfyllin. Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol newydd o leiaf cystal â'r ddarpariaeth bresennol yn Ysgol G.G. Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin, a byddai'n darparu gwell cyfleoedd ar gyfer rhannu adnoddau, rhannu staff a rhannu cyfleusterau arbenigol rhwng cyfnodau addysgol. Byddai gweithredu'r cynnig hefyd yn darparu cyfle i gryfhau'r contiwwm ieithyddol rhwng y cyfnodau addysgol.

21. ASESIADAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB, Y GYMUNED A'R IAITH GYMRAEG

Mae asesiadau effaith drafft wedi eu cyflawni yng nghyswllt y cynnig. Bydd y rhain yn cael eu diweddaru'n dilyn y cyfnod ymgynghori i adlewyrchu unrhyw faterion ychwanegol a gododd. Mae'r asesiadau ar gael ar wefan y Cyngor yn: https://cwsmer.powys.gov.uk/article/5275/Ysgol-GG-Llanfyllin-ac-Ysgol-Uwchradd-Llanfyllin

Rhoddir crynodeb o'r asesiadau hyn isod:

i) Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Mae'r cynnig yn anelu i wella'r cyfleoedd addysgol a gynigir i'r holl ddisgyblion yn Llanfyllin, yn cynnwys unrhyw ddisgyblion sy'n perthyn i'r grwpiau nodweddion a ddiogelir. Er y byddai'r cynnig yn effeithio ar rai disgyblion sy'n perthyn i'r grwpiau hyn, byddai darpariaeth cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn parhau yn Llanfyllin, felly ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol.

ii) Effaith ar y gymuned

Gan y byddai'r cynnig yn arwain at gadw darpariaeth cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn Llanfyllin yn yr adeiladau lle mae Ysgol G.G. Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin wedi'u lleoli ar hyn o bryd, felly ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar y gymuned.

iii) Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Gan y byddai'r cynnig yn arwain at gadw darpariaeth gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn Llanfyllin, ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar yr iaith Gymraeg. Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at well trosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol, a allai arwain at welliannau yn y cyfran o ddisgyblion sy'n parhau i gael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wrth drosglwyddo o'r sector cynradd i'r sector uwchradd.

Mae'n bosibl hefyd y gallai gweithredu'r cynnig gael effaith bositif ar ethos Gymraeg y sector uwchradd yn Llanfyllin trwy gyfuno'r ysgol gydag ysgol gynradd sydd â chanran uwch o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg nag Ysgol Uwchradd Llanfyllin.

RHAN D MANYLION YR YMGYNGHORIAD

22.1 Gyda phwy y byddwn yn ymgynghori?

Bydd y Cyngor yn ymgynghori ag ystod o randdeiliaid, fel sy'n ofynnol o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, gan gynnwys y canlynol:

- Rhieni, llywodraethwyr a staff Ysgol G.G. Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin
- Rhieni yn yr holl ysgolion sy'n bwydo Ysgol Uwchradd Llanfyllin
- Disgyblion yn Ysgol G.G. Llanfyllin, Ysgol Uwchradd Llanfyllin a'r holl ysgolion sy'n bwydo Ysgol Uwchradd Llanfyllin
- Awdurdodau Esgobaeth yr Eglwys Babyddol Rufeinig a'r Eglwys yng Nghymru
- Gweinidog Addysg a Sgiliau Cymru
- Awdurdodau Lleol cyfagos
- Cynghorwyr lleol Powys
- Cynghorau Tref a Chymuned yr ardal leol
- Yr Aelod Cynulliad dros Sir Drefaldwyn ac Aelodau Cynulliad rhanbarthol yr ardal
- Yr Aelod Seneddol dros Sir Drefaldwyn
- Estyn
- Undebau athrawon a staff
- ERW
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu
- Darparwyr addysg feithrin yn yr ardal leol
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Powys
- Coleg NPTC
- Comisiynydd y Gymraeg

Byddwn yn ymgynghori â disgyblion yn unol â safonau cyfranogiad ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru[7].

22.2 Y cyfnod ymgynghori

Bydd y cyfnod ymgynghori'n dechrau ar 27 Tachwedd 2018 ac yn gorffen ar 31 Ionawr 2019.

Byddwn hefyd yn cynnal sesiwn ymgynghori 'galw heibio' dros y cyfnod ymgynghori. Bydd hyn yn digwydd ar y dyddiad canlynol:

Ysgol G.G. Llanfyllin, Dydd Iau 10 Ionawr 2019, 4 – 8pm
Ysgol Uwchradd Llanfyllin, Dydd Mercher 16 Ionawr 2019, 4 – 8pm

[7] https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/rights/ParticipationforChildrenandYoungPeople/?skip=1&lang=cy

22.3 Y broses statudol

Bydd ymgynghori ar y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a nodir gan Lywodraeth Cymru yn y Cod Trefniadaeth diwygiedig ar gyfer Ysgolion a ddaeth yn weithredol ar 1 Tachwedd 2018. Crynhoir y broses hon isod:

i) Yr Ymgynghoriad

Bydd yr ymgynghori'n dechrau ar 27 Tachwedd 2018 ac yn dod i ben ar 31 Ionawr 2019. Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei gasglu a'i grynhoi ac adroddiad ar yr ymgynghoriad yn cael ei gynhyrchu a'i rannu gyda rhanddeiliaid.

Fel rhan o ddull y Cyngor o ymdrin â chynigion ad-drefnu ysgolion, mae pob adroddiad ymgynghori'n cael ei ystyried gan y Cyngor llawn yn gyntaf ac yna gan y Cabinet. Felly bydd angen i'r Adroddiad Ymgynghori sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn gael ei ystyried gan y Cyngor Llawn.

Ar ôl i'r Cyngor Llawn ystyried yr adroddiad, bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad a'r adborth a dderbyniwyd dros y cyfnod ymgynghori, cyn penderfynu a ddylid symud ymlaen gyda'r cynnig, gwneud newidiadau i'r cynnig neu beidio â symud ymlaen o gwbl gyda'r cynnig. Os bydd y Cabinet yn penderfynu peidio â symud ymlaen, bydd hynny'n ddiwedd ar y cynnig hwn.

Rydym yn rhagweld y bydd yr Adroddiad Ymgynghori'n cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn a'r Cabinet ym mis Chwefror / Mawrth 2019.

ii) Hysbysiad statudol

Os yw'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen â'r cynigion, bydd hysbysiadau statudol yn cael eu cyhoeddi ar ôl i'r Cabinet gyfarfod. Byddai cyfnod o 28 diwrnod wedyn i bobl gyflwyno gwrthwynebiadau ysgrifenedig.

Pe bai gwrthwynebiadau'n dod i law, byddai'r Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebiadau'n rhoi crynodeb o'r gwrthwynebiadau, ac ymateb y Cyngor iddynt, o fewn saith diwrnod gan ddechrau gyda diwrnod penderfyniad yr awdurdod lleol. Dylid cofio mai dim ond gwrthwynebiadau ysgrifenedig a gyflwynir dros gyfnod yr hysbysiad statudol fydd yn cael eu hystyried a'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Ni fyddai sylwadau wedi eu cyflwyno dros y cyfnod ymgynghori'n cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau. Pe bai rhanddeiliaid am i'w hymatebion ymgynghori gael eu hystyried fel gwrthwynebiadau, byddai angen iddynt eu hailgyflwyno'n ysgrifenedig dros gyfnod yr hysbysiad statudol.

Byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor i'w ystyried ochr yn ochr â'r adroddiad gwrthwynebiadau, er mwyn penderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynnig neu beidio.

Rydym yn rhagweld y byddai penderfyniad terfynol yn cael ei wneud erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2018/19 fan bellaf.

iii) Gweithredu

Pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig, byddai'n cael ei weithredu yn ôl y dyddiad yn yr Hysbysiad Statudol neu unrhyw ddyddiad a addaswyd wedyn.

22.4 Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

Mae ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ynghlwm wrth y ddogfen hon. Mae fersiwn ar-lein hefyd ar gael ar wefan y Cyngor yn:

https://cwsmer.powys.gov.uk/article/5275/Ysgol-GG-Llanfyllin-ac-Ysgol-Uwchradd-Llanfyllin

Neu, gallwch ymateb yn ysgrifenedig.

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ac ymatebion ysgrifenedig eraill i'r cyfeiriad canlynol:

Y Tîm Trawsnewid Ysgolion, Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, LD1 5LG

E-bost: school.consultation@powys.gov.uk

Rhaid i bob gohebiaeth ein cyrraedd erbyn **31 Ionawr 2019**.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y cynnig hwn, gallwch gysylltu â'r Tîm Trawsnewid Ysgolion drwy'r manylion cyswllt uchod neu drwy ffonio (01597) 826265.

ATODIAD A DATA ALLWEDDOL

Ysgol G.G. Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin

Mae data allweddol am y ddwy ysgol wedi'i ddarparu isod:

Gwybodaeth Gyffredinol

Enw'r Ysgol	Categori'r Ysgol	Categori Iaith	Rhif Derbyn
Ysgol G.G. Llanfyllin	Ysgol Gynradd Gymunedol	Dwy Ffrwd (DS)	27
Ysgol Uwchradd Llanfyllin	Ysgol Uwchradd Gymunedol	Dwyieithog Dwy Ffrwd – Categori 2C	146

Niferoedd disgyblion

i) Niferoedd disgyblion presennol[8]

	D	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
Llanfyllin C.P. School	18	19	19	28	16	21	26	147

	7	8	9	10	11	12	13	Cyfanswm
Ysgol Uwchradd Llanfyllin	101	96	118	137	142	56	57	707

ii) Niferoedd disgyblion hanesyddol[9]

	Ion. 2013	Ion. 2014	Ion. 2015	Ion. 2016	Ion. 2017	Ion. 2018
Ysgol G.G. Llanfyllin (D – Bl6)	176	164	166	156	157	153
Ysgol Uwchradd Llanfyllin (Bl7 – Bl13)	871	831	872	832	808	748
CYFANSWM	**1047**	**995**	**1038**	**988**	**965**	**901**

[8] Teacher Centre, 18 Medi 2018

[9] PLASC

iii) Niferoedd disgyblion amcanestynedig

	January 2019	January 2020	January 2021	January 2022	January 2023
Ysgol GG Llanfyllin	145	139	133	134	122
Ysgol Uwchradd Llanfyllin	699	669	637	598	580
CYFANSWM	**844**	**808**	**770**	**732**	**702**

Capasiti a Chyflwr yr Adeiladau

Mae'r tabl isod yn nodi gwybodaeth am gapasiti a chyflwr y ddwy ysgol:

	Capasiti	Cyflwr	Addasrwydd
Ysgol G.G. Llanfyllin	185 + 26 meithrin	C	B/C
Ysgol Uwchradd Llanfyllin	916	C	B/C

Ansawdd a safonau addysg

i) Estyn

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi arolygon Estyn diweddaraf y ddwy ysgol:

	Ysgol GG Llanfyllin	Ysgol Uwchradd Llanfyllin
Dyddiad Arolygu	Hydref 2014	Chwefror 2016
Perfformiad Cyfredol yr Ysgol	Digonol	Digonol
Rhagolygon gwella	Digonol	Digonol
Gweithgarwch dilynol	Monitro gan Estyn Cynhaliwyd ymweliad monitor Estyn yn Ionawr 2016 – dyfarnwyd fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da, a chafodd ei thynnu oddi ar y rhestr ysgolion sydd angen eu monitor gan Estyn	Angen Gwella'n Sylweddol

ii) Categoreiddio Ysgolion

Mae categorïau diweddaraf y ddwy ysgol yn unol â System Cenedlaethol Categoreiddio Ysgolion 2017 fel a ganlyn:

	Grŵp Safonau	Capasiti Gwella	Capasiti Cymorth
Ysgol G.G. Llanfyllin	N/A	C	Amber
Ysgol Uwchradd Llanfyllin	N/A	C	Amber

Sefyllfa gyllidebol

	Alldro Cronnol Gwirioneddol 2017/18	Cyllideb 2018/19	Cyllideb 2019/20	Cyllideb 2020/21
Ysgol G.G. Llanfyllin	(£18,788)	£2,338	(£1,488)	(£39,376)
Ysgol Uwchradd Llanfyllin	£59,125	£57,133	£101,475	£39,816

Gwybodaeth cydraddoldebau[10]

i) Hunaniaeth genedlaethol

(Disgyblion dros 5 oed ar 31 Awst 2017)

	Pryd-einig	Saesneg	Gwydd-elig	O'r Alban	Cymraeg	Arall	Heb ei nodi	Wedi gwrth od	Cyfanswm disgyblion
Ysgol G.G. Llanfyllin	41 (26.8%)	35 (22.9%)	0 (0.0%)	1 (0.7%)	69 (45.1%)	6 (3.9%)	0 (0.0%)	1 (0.7%)	153
Ysgol Uwchradd Llanfyllin	278 (37.2%)	199 (26.6%)	2 (0.3%)	3 (0.4%)	252 (33.7%)	11 (1.5%)	1 (0.1%)	2 (0.3%)	748

[10] PLASC Ionawr 2018

ii) Grŵp Ethnig

(Disgyblion dros 5 oed ar 31 Awst 2017)

	Gwyn Prydeinig	Ethnigrwydd hysbys arall	Heb dderbyn y wybodaeth eto	Cyfanswm disgyblion
Ysgol G.G. Llanfyllin	95.4%	3.9%	0.7%	153
Ysgol Uwchradd Llanfyllin	97.7%	2.0%	0.3%	748

iii) Saesneg fel laith Ychwanegol

	Nifer ar y Gofrestr	% Saesneg fel laith Ychwanegol	% Saesneg fel laith Ychwanegol A/B/C
Ysgol G.G. Llanfyllin	153	3.9%	3.9%
Ysgol Uwchradd Llanfyllin	748	1.1%	0.4%

iv) Prydau Ysgol am Ddim

	Ddim yn gymwys am Brydau Ysgol am Ddim	Yn gymwys am Brydau Ysgol am Ddim	Cyfanswm y disgyblion	% sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim
Ysgol G.G. Llanfyllin	123	16	139	11.5%
Ysgol Uwchradd Llanfyllin	560	44	604	7.3%

v) Plant sy'n Derbyn Gofal

	Plant sy'n Derbyn Gofal
Ysgol G.G. Llanfyllin	0 (0%)
Ysgol Uwchradd Llanfyllin	7 (0.9%)

vi) Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

	Dim	Gweithredu gan yr Ysgol	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	Datganiad	Cyfanswm disgyblion	% ADY
Ysgol G.G. Llanfyllin	132 (86.3%)	17 (11.1%)	4 (2.6%)	0 (0.0%)	153	13.7%
Ysgol Uwchradd Llanfyllin	565 (75.5%)	140 (18.7%)	35 (4.7%)	8 (1.1%)	748	24.5%

ATODIAD B FFURFLEN YMATEB

YSGOL GYNRADD LLANFYLLIN AC YSGOL UWCHRADD LLANFYLLIN

Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar y cynigion canlynol sy'n ymwneud ag addysg yn Llanfyllin:

- Cau Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin
- Agor ysgol pob oed ddwyieithog newydd i ddisgyblion 4-18 oed ar safleoedd presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin

Y dyddiadau targed sydd mewn golwg yw bod y ddwy ysgol yn cau ar 31 Awst 2020 a'r ysgol newydd yn agor ar 1 Medi 2020.

Mae dogfen ymgynghori'n rhoi mwy o wybodaeth am y cynigion ar gael ar wefan y Cyngor yn https://cwsmer.powys.gov.uk/article/5275/Ysgol-GG-Llanfyllin-ac-Ysgol-Uwchradd-Llanfyllin

Mae'r ffurflen ymateb hon yn rhoi cyfle i chi roi gwybod i ni beth yw eich barn am gynnig y Cyngor. Gallwch hefyd lenwi'r ffurflen hon ar-lein – mae dolen i'r ffurflen ar-lein ar gael drwy glicio ar y ddolen uchod.

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw **31 Ionawr 2019.** Rhaid i bob ymateb ein cyrraedd erbyn y dyddiad hwn.

Bydd yr holl wybodaeth a dderbyniwn drwy'r arolwg hwn yn cael ei gweinyddu o dan reolau Deddf y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. I gael gwybod mwy am sut y mae Cyngor Sir Powys yn gweithredu'n unol â'r rheolau hyn, ewch i http://www.powys.gov.uk/cy/rheoli-gwybodaeth/telerau-ac-amodau/

Rhan 1 – Amdanoch Chi

1. Dywedwch os gwelwch yn dda beth yw eich cysylltiad â'r ysgolion y mae'r ymgynghoriad hwn yn effeithio arnynt:

Rhiant, gofalwr neu warcheidwad	☐	Aelod o staff	☐
Darpar riant, gofalwr neu warcheidwad	☐	Aelod o'r gymuned	☐
Llywodraethwr	☐	Dim cysylltiad	☐
Cysylltiad arall (rhowch fanylion)	☐	_____	

2. Dywedwch gyda pha ysgol y mae gennych gysylltiad:

Ysgol Gynradd Llanfyllin	☐	Ysgol Uwchradd Llanfyllin	☐	Ysgol gynradd heblaw YG Llanfyllin	☐	Dim cyswllt gydag unrhyw ysgol	☐

Os oes gennych gysylltiad gydag ysgol sy'n bwydo Ysgol Uwchradd Llanfyllin heblaw Ysgol G.G. Llanfyllin, nodwch ba ysgol os gwelwch yn dda: _____

3. Rhowch eich cod post os gwelwch yn dda _____

Rhan 2 – Ymateb i'r Ymgynghoriad

Rhowch eich atebion i'r cwestiynau isod os gwelwch yn dda.

4. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig presennol i sefydlu ysgol bob oed yn Llanfyllin?

Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod ☐

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol:

5. Ydych chi'n meddwl y dylai'r Cyngor fod yn ystyried unrhyw opsiynau eraill ar gyfer Llanfyllin yn lle'r cynnig i sefydlu ysgol bob oed newydd?

Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod ☐

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol, yn cynnwys disgrifiad o'r opsiwn/opsiynau yr ydych yn meddwl y dylai'r Cyngor fod yn eu hystyried:

Sylwadau eraill

6. Nodwch unrhyw sylwadau eraill yn y gofod isod os gwelwch yn dda:

_____

_____

_____

_____

_____

_____

7. Ar ddiwedd y Cyfnod Ymgynghori, bydd y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori'n crynhoi'r materion a gododd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn rhoi ymateb y Cyngor i'r materion hyn.

   A ydych eisiau i ni roi gwybod i chi pan fydd yr Adroddiad Ymgynghori'n cael ei gyhoeddi?

   Ie ☐ Na ☐

   Os gwnaethoch ateb 'Ie', rhowch eich cyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post isod:

   _____

   _____

Rhan 3 – Gwybodaeth am Gydraddoldeb (dewisol)

Rydym eisiau sicrhau ein bod yn cynnwys holl sectorau'r gymuned yn ein hymgynghoriad, a gofynnwn i chi felly roi'r wybodaeth yma i ni fel y gallwn gadarnhau a yw'r ymgynghoriad wedi bod yn gynhwysol.

Fodd bynnag, nid oes raid i chi ateb y cwestiynau hyn. Byddwn yn ystyried pob ymateb wrth benderfynu sut i symud ymlaen, p'un ai yw'r wybodaeth yma wedi cael ei darparu gennych neu beidio.

8. Ydych chi'n gallu deall, siarad neu ysgrifennu Cymraeg?

   Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim am ddweud ☐

9. Os oes gennych blant oed ysgol, a oes ganddynt hawl i brydau ysgol am ddim?

   Oes ☐ Nag oes ☐ Ddim am ddweud ☐

10. Os oes gennych blant oed ysgol, a oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol?

    Oes ☐ Nag oes ☐ Ddim am ddweud ☐

11. Ydych chi'n ystyried eich hun i fod yn anabl?

Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim am ddweud ☐

12. Beth yw eich grŵp ethnig?

Gwyn	☐	Grŵp ethnig cymysg neu luosog	☐
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	☐	Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig	☐
Unrhyw grŵp ethnig arall	☐	Ddim am ddweud	☐

Diolch i chi am lenwi'r holiadur hwn.

Ar ôl eu llenwi, dylid anfon eich holiaduron i'r cyfeiriad canlynol, i gyrraedd **erbyn 31 Ionawr 2019 fan bellaf:**

Y Tìm Trawsnewid Ysgolion,
Cyngor Sir Powys,
Neuadd y Sir,
Llandrindod,
LD1 5LG

E-bost: school.consultation@powys.gov.uk